Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Dr Neil Pike
Ysgol G.G. Bodringallt
Bryn Terrace
Ystrad
Pentre
RCT
CF41 7RX

11/06/2025

Annwyl Dr Pike

**Ymweliad Interim:** Mai 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Ehangu'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm, gyda ffocws penodol ar fedrau ysgrifennu a digidol

- Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella clir sy'n canolbwyntio ar ehangu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae cyfrifoldebau wedi eu dosrannu'n effeithiol ac mae'r holl staff yn derbyn cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws y cwricwlwm sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion.
- Mae athrawon wedi datblygu dulliau clir i arfogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau yn adeiladol dros amser. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig yn fwriadus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae athrawon wedi datblygu adnoddau pwrpasol i gefnogi datblygiad medrau'r disgyblion wrth iddynt ysgrifennu yn estynedig, er enghraifft drwy furluniau dysgu rhagweithiol.
- Mae'r disgyblion hynaf yn dewis testunau yn annibynnol wrth ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiaeth ffyrdd ar draws y cwricwlwm.
- Mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn rheolaidd ac yn llwyddiannus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.
- Mae athrawon yn cynllunio tasgau cyfoethog gyda'r disgyblion sydd yn ehangu ar eu cyfleoedd i gymhwyso eu medrau digidol. Mae disgyblion yn cael dewis ym mha ffordd y maent eisiau cyflwyno eu gwaith yn ogystal â chael defnyddio ystod eang o gyfarpar digidol. O ganlyniad, mae amrediad medrau'r disgyblion hŷn yn datblygu'n gyson dros amser.
- Mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i ddisgyblion wneud dewisiadau yn fwy annibynnol wrth iddynt gymhwyso eu medrau ysgrifennu estynedig a digidol ar draws y cwricwlwm.

## Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu'n gynyddol annibynnol

- Ar draws yr holl ddosbarthiadau, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus i'w dysgu. Maent yn cynnig syniadau defnyddiol yn gynyddol annibynnol am yr hyn maent eisoes yn ei wybod a'r hyn yr hoffent ei ddysgu ymhellach yn ystod eu themâu tymhorol.
- Mae staff yn darparu gweithgareddau dysgu ystyrlon i ddisgyblion yn yr ardaloedd dysgu tu allan a thu fewn sy'n meithrin eu medrau annibynnol a datrys problemau yn fwriadus.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod gyfoethog o adnoddau o fewn yr amgylcheddau dysgu ysgogol a deniadol yn gynyddol annibynnol i ymestyn eu dysgu a'u chwarae yn bwrpasol.
- Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, maent yn derbyn cyfleoedd llwyddiannus i benderfynu ar lefel yr her sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu.
- Pan gânt y cyfle i wneud hynny, mae'r disgyblion hŷn yn derbyn cyfleoedd bwriadus i drafod a phenderfynu ar y meini prawf llwyddiant ar gyfer eu gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau eu bod yn gweithio'n gynyddol annibynnol heb ddibynnu'n ormodol ar gefnogaeth gan staff.
- Trwy gyfuniad synhwyrol o waith ymchwil annibynnol gan ddisgyblion ac oedolion yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol iddynt, mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion wneud penderfyniadau am y dull gorau i gyflwyno eu gwaith i gynulleidfa.

- Darperir cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol i staff sy’n canolbwyntio’n briodol ar gysoni’r arferion gorau wrth feithrin ymddygiadau dysgu annibynnol disgyblion. Mae hyn yn cyfrannu’n fwriadus at ymrwymiad a chwilfrydedd disgyblion wrth wynebu profiadau dysgu newydd ac anghyfarwydd yn lled annibynnol.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6742356

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol